***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 6. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL, ATODOL AC ARBED

## RHAN 3

## TROSGLWYDDO SWYDDOGAETHAU ETC

*Amrywiadau mewn contractau cyflogaeth*

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo amrywiad honedig yng nghontract cyflogaeth—
 (a) cyflogai i'r Archwilydd Cyffredinol;
 (b) cyflogai i SAC y trosglwyddwyd ei gyflogaeth o dan baragraff 5.

(2) Mae'r amrywiad yn ddi-rym os yr unig neu'r prif reswm dros amrywio'r contract yw—
 (a) y trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1), neu
 (b) rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad nad yw'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu.

(3) Nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n rhwystro amrywiad os yr unig neu'r prif reswm dros yr amrywiad yw—
 (a) rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad sy'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu, neu
 (b) rheswm nad yw'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 3 para. 6 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 6.